Cyngor Abertawe Swansea Council

# MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU (MALIC) 2019

## Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC 2019) gan Lywodraeth Cymru ar 27 Tachwedd 2019. WIMD yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Dyma'r mynegai newydd cyntaf am bum mlynedd ac mae'n disodli MALIC 2014.

Yn y cyd-destun hwn, mae 'amddifadedd' yn golygu mwy na thlodi; mae'n adlewyrchu angen nad yw wedi'i ddiwallu, wedi'i achosi gan ddiffyg adnoddau o amrywiol fathau, nid rhai ariannol yn unig. Gellir ei ddiffinio hefyd fel diffyg mynediad i gyfleoedd ac adnoddau y byddem yn eu disgwyl yn ein cymdeithas. Mae MALIC yn nodi ardaloedd lle ceir y crynoadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd, a'i nod yw nodi'r agweddau perthnasol a chymdeithasol ar amddifadedd.

Datblygwyd MALIC fel modd o nodi a deall amddifadedd mewn ardaloedd lleol ac fe'i defnyddir i gefnogi datblygu polisïau a thargedu adnoddau a gwasanaethau. Gellir ei ddefnyddio hefyd i nodi ardaloedd peilot, adeiladu proffiliau ardal, mewn ceisiadau am gyllid a grantiau, er mwyn monitro iechyd ac anghydraddoldebau eraill, modelu galwadau ar wasanaethau cyhoeddus, llywio dylunio gwasanaethau a dadansoddiad ac ar gyfer darparu tystiolaeth am les ac anghenion asesu lleol.

Mae'r nodyn hwn yn darparu trosolwg o fynegai 2019, canlyniadau cryno ar gyfer ardaloedd yn Abertawe, arweiniad byr ar sut y dylid ei ddefnyddio (a sut na ddylid ei ddefnyddio) a ffynonellau rhagor o wybodaeth.

## Cyfansoddiad y Mynegai

Mae'r mynegai cyffredinol ar gyfer 2019 yn cynnwys wyth math neu barth ar wahân o amddifadedd sef:

- Incwm
- Iechyd
- Mynediad at wasanaethau
- Diogelwch cymunedol
- Cyflogaeth
- Addysg
- Tai
- Amgylchedd ffisegol.

Mae pob parth yn seiliedig ar amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol sy'n cael eu pwysoli a'u cyfuno i greu sgorau a safleoedd unigol ar gyfer pob parth a'r mynegai cyffredinol o 'amddifadedd lluosog'. Mae pwysau pob parth wedi newid ychydig o fynegai 2014. Incwm a chyflogaeth yw'r parthau pwysicaf o hyd, a phob un yn cyfrif am 22% o gyfanswm sgôr y mynegai, a dilynir hyn gan Iechyd 15%, Addysg 14%, Mynediad at Wasanaethau 10%, Tai 7% a Diogelwch Cymunedol a'r Amgylchedd Ffisegol 5% yr un.

Bu newidiadau i ddangosyddion unigol, a chynhwysir dangosyddion newydd yn y parthau Iechyd, Addysg, mynediad at Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol a Thai.

## Daearyddiaeth

Mae MALIC 2019, fel y pedwar ailadroddiad blaenorol, yn seiliedig ar ddaearyddiaeth ystadegol Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yng Nghymru, mae 1,909 ACEHI bellach, gyda phoblogaeth gyfartalog o oddeutu 1,600.

Ers rhyddhau ystadegau ardaloedd lleol o gyfrifiad 2011, mae 148 o ACEHI yn Abertawe - y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn y 36 o Adrannau Etholiadol neu Wardiau yn Abertawe.

Ni chaiff safleoedd y mynegai amddifadedd eu cyhoeddi ar gyfer ardaloedd daearyddol eraill e.e. ar lefel ward neu awdurdod, er bod peth o'r data dangosyddion o'r mynegai ar gael ar gyfer ACEHI ac ardaloedd lleol eraill.

## Defnyddio'r Mynegai

Gellir defnyddio MALIC 2019 i:

- Nodi'r ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan neu mewn ardaloedd mwy lleol
- Cymharu amddifadedd cymharol ardaloedd bach
- Archwilio'r wyth parth (math) o amddifadedd ar lefel ardal fach
- Cymharu'r gyfran o ardaloedd bach o fewn ardal fwy sy'n ddifreintiedig iawn (e.e. cyfran yr ACEHI yn Abertawe yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru)
- Ystyried newid absoliwt dros amser mewn ardaloedd gan ddefnyddio data dangosyddion.

*Ni ddylid* defnyddio Mynegai 2019 i:

- Fesur pa mor ddifreintiedig yw ardal, neu faint yn fwy difreintiedig ydyw nag ardal arall. Er enghraifft, os A yw'r 10fed ardal fwyaf difreintiedig a B yw'r 20fed, nid yw'n dilyn bod A ddwywaith mor ddifreintiedig â B.
- Newid absoliwt dros amser (rhwng mynegeion). Gan fod MALUC yn fynegai cymharol, efallai na fydd newidiadau safle'n golygu newid mewn lefelau amddifadedd absoliwt
- Nodi pobl ddifreintiedig - gan nad yw pawb sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig yn ddifreintiedig ac nid yw'r holl bobl ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd difreintiedig
- Mesur digonedd. Mae'r ffaith bod un ardal mewn safle is nag un arall yn golygu ei bod yn llai difreintiedig ac nid yn fwy cefnog
- Cymharu canlyniadau yng Nghymru â mynegeion amddifadedd ar gyfer ardaloedd eraill yn y DU.

## Crynodeb o ganlyniadau MALIC 2019

Ar draws Cymru gyfan, mae Mynegai 2019 yn nodi mai 'Gorllewin Rhyl 2' yn Sir Ddinbych yw'r ACEHI mwyaf difreintiedig. Mae ACEHI yng Nghaerffili, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudfil, Wrecsam a Chasnewydd hefyd ymysg y deg ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ym Mynegai 2019, mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o ACEHI Abertawe ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gydag 17 (11.5%) o'i 148 ACEHI yn y 191 (10%) mwyaf difreintiedig. Yr ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru â'r cyfrannau uwch yw Casnewydd (24.2%), Merthyr Tudfil (22.2%), Caerdydd (18.2%) a Rhondda Cynon Taf (17.5%). At ei gilydd, mae gan saith o 22 o awdurdodau lleol Cymru gyfran uwch o'r ACEHI mwyaf difreintiedig nag Abertawe (sylwer yn 2014, roedd gan Abertawe'r 9fed cyfran uchaf ar y sail hon).

- Yn Abertawe, mae nifer yr ACEHI yn 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru i lawr ychydig, o 18 yn 2014 i 17 yn 2019.
- Mae nifer a chyfran ACEHI Abertawe sydd yn yr 20% mwyaf difreintiedig a'r 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru hefyd wedi disgyn, fel y manylir yn Nhabl 1 isod.
- Fodd bynnag, mae cyfran ACEHI Abertawe sydd yn y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi cynyddu i dros 30% (46 o'i 148 o ACEHI).

**Tabl 1:** Nifer a % ACEHI Abertawe yn y 10%, 20%, 30% a'r 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

| MALIC | 10% mwyaf difreintiedig | | 20% | | 30% | | 50% | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ACEHI | % o'r holl | ACEHI | % o'r holl | ACEHI | % o'r holl | ACEHI | % o'r holl |
| ***2014*** | *18* | *12.2* | *37* | *25.0* | *42* | *28.4* | *72* | *48.6* |
| **2019** | 17 | 11.5 | 35 | 23.6 | 46 | 31.1 | 68 | 45.9 |

Yn y parthau unigol, mae lefelau amddifadedd yn fwyaf arwyddocaol o ran Cyflogaeth (mae (14.9% o ACEHI Abertawe ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru), a dilynir hyn gan Incwm (12.8%), Iechyd (12.2%), Addysg (11.5%) a Diogelwch Cymunedol (10.1%). Fodd bynnag, mae lefelau yn y parthau Mynediad at Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol a Thai islaw cyfartaledd Cymru (ar gyfer y gyfran o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru).

Ym Malc 2019, Townhill 2 (16eg safle yng Nghymru) a Townhill 1 (18fed yng Nghymru) yw'r ACEHI mwyaf difreintiedig yn Abertawe yn awr. Yn y Mynegai Cyffredinol, mae 17 o ACEHI mwyaf difreintiedig Abertawe, h.y. y rheini sydd ymysg y 10% mwyaf difreintiedig (191 ACEHI) yng Nghymru, yn yr ardaloedd ward canlynol:

**Townhill** (5 o'r 6 ACEHI)
**Y Castell** (2 o'r 10 ACEHI)
**Bôn-y-maen** (1 o'r 4 ACEHI - canolog/dwyrain)
**Llansamlet** (1 o'r 8 ACEHI - rhan o Gellifedw)
**Penderi** (5 o'r 7 ACEHI yn y ward)
**Treforys** (2 o'r 11 ACEHI)
**Mynydd-bach** (1 o'r 6 ACEHI - ardal y Clâs).
*(Cyfanswm = 17 ACEHI)*

Caiff rhestr o'r ACEHI sydd ymysg yr 20 uchaf (h.y. y mwyaf difreintiedig) a'r 10 isaf (lleiaf difreintiedig) yng Nghymru ac Abertawe ei nodi yn Atodiad 1.

## Casgliadau

- Erys Abertawe ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer awdurdodau lleol a chanddynt ACEHI sydd ymysg y 10% mwyaf difreintiedig; er, mae'r gyfran hon wedi gostwng ychydig ers MALIC 2014.
- Erys Townhill, Penderi, Y Castell a Threforys fel y wardiau yn Abertawe â mwy nag un ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- Mae gan Abertawe bellach ddwy ACEHI yn yr 20 o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac 13 yn y 100 mwyaf difreintiedig (yn MALIC 2014, roedd y ffigurau hyn yn 0 ac 11).

Bydd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer:

- Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth leol o ddosbarthiad, hyd a lled a natur amddifadedd yn Abertawe; o ran amddifadedd cyffredinol, lluosog a dadansoddiad manylach o faterion unigol (parthau a dangosyddion).
- Datblygu polisi a dyrannu adnoddau i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn y dyfodol o ran nifer o fentrau wedi'u targedu.
- Darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y cyngor a sefydliadau lleol eraill i lywio cyflwyno gwasanaethau, dyrannu adnoddau, ceisiadau am gyllid a gwneud penderfyniadau.

*Rhagfyr 2019*

Os hoffech wybod rhagor am MALlC neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch ystadegau amddifadedd, cysylltwch â'r canlynol:

**Cyngor Abertawe - Gwybodaeth, Ymchwil a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol**
Ffôn: 07970 610583. Ebost: ymchwil@abertawe.gov.uk

Uned Cyflwyno Strategol, Cyfarwyddiaeth Adnoddau, y Ganolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN.

**ATODIAD 1: CRYNODEB O SAFLEOEDD MALIC 2019**

Mae'r tabl isod yn rhestru'r 20 ACEHI fwyaf difreintiedig a'r 10 lleiaf difreintiedig yng Nghymru ac Abertawe. Nodir yr 20 ACEHI uchaf a'r 10 isaf yn Abertawe o ran safleoedd y parthau unigol isod hefyd. Mae'r rhestr lawn ar gael drwy'r we-dudalen www.abertawe.gov.uk/mallc2019

| **Safle yng Nghymru** | **Mynegai Cyffredinol (Cymru)** | **Mynegai Cyffredinol (Abertawe)** | **Safle yng Nghymru / Abertawe** | **Parthau:** Incwm | Cyflogaeth | Iechyd | Addysg | Mynediad i Wasanaethau | Tai | Diogelwch Cymunedol | Amgylchedd Ffisegol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gorllewin Rhyl 2 | **Townhill 2** | 16 / 1 | Townhill 5 | Y Castell 2 - Gogledd | Penderi 1 | Townhill 1 | Gŵyr 1 | Y Castell 6 | Y Castell 2 - Gogledd | Pontarddulais 2 |
| 2 | Gorllewin Rhyl 1 | **Townhill 1** | 18 / 2 | Townhill 1 | Y Castell 1 | Townhill 2 | Townhill 3 | Mawr | Uplands 9 | Treforys 7 | Pontarddulais 3 |
| 3 | St James 3 | **Penderi 3** | 22 / 3 | Penderi 1 | Penderi 3 | Penderi 3 | Penderi 1 | Gŵyr 2 | Y Castell 4 | Y Castell 4 | Y Castell 8 |
| 4 | Tylorstown 1 | **Y Castell 1** | 23 / 4 | Townhill 2 | Townhill 2 | Townhill 1 | Townhill 2 | Townhill 2 | Glandŵr 4 | Y Castell 7 - Dwyrain | Llansamlet 7 |
| 5 | Caerau 1 | **Penderi 1** | 31 / 5 | Townhill 3 | Mynydd-bach 1 | Y Castell 1 | Penderi 5 | Townhill 1 | Uplands 4 | Llansamlet 1 | Uplands 8 |
| 6 | Penrhiwceiber 1 | **Townhill 3** | 32 / 6 | Penderi 3 | Penderi 4 | Y Castell 2 - Gogledd | Townhill 6 | Y Castell 2 - Gogledd | Uplands 6 | Y Cocyd 7 | Cwmbwrla 3 |
| 7 | Penydarren 1 | **Y Castell 2 - Gogledd** | 36 / 7 | Y Castell 1 | Townhill 6 | Mynydd-bach 1 | Penderi 4 | Penderi 1 | Uplands 7 | Mynydd-bach 1 | Y Castell 7 - Gorllewin |
| 8 | Twyn Carno 1 | **Mynydd-bach 1** | 37 / 8 | Mynydd-bach 1 | Townhill 5 | Townhill 3 | Townhill 5 | Y Castell 5 | Cwmbwrla 1 | Glandŵr 2 | Cwmbwrla 1 |
| 9 | Queensway 1 | **Townhill 5** | 41 / 9 | Castell 2 - Gogledd | Townhill 1 | Bôn-y-maen 1 | Mynydd-bach 1 | St Thomas 1 | Y Castell 5 | Y Castell 3 | Y Castell 4 |
| 10 | Pillgwenlly 4 | **Penderi 4** | 48 / 10 | Penderi 4 | Treforys 5 | Townhill 5 | Penderi 3 | Penderi 3 | Uplands 8 | Penderi 3 | Cwmbwrla 2 |
| 11 | Gorllewin Rhyl 3 | **Townhill 6** | 58 / 11 | Townhill 6 | Bôn-y-maen 1 | Townhill 6 | Penderi 6 | Mynydd-bach 1 | Y Castell 8 | Y Cocyd 8 | Glandŵr 4 |
| 12 | Splott 6 | **Bôn-y-maen 1** | 81 / 12 | Treforys 5 | Townhill 3 | Penderi 4 | Bôn-y-maen 1 | Penderi 4 | Cwmbwrla 2 | Penderi 6 | Glandŵr 3 |
| 13 | Trowbridge 8 | **Treforys 5** | 95 / 13 | Bôn-y-maen 1 | Y Cocyd 2 | Penderi 6 | Penderi 2 | Y Castell 2 - de | Cwmbwrla 3 | Y Castell 7 - Gorllewin | Llansamlet 3 |
| 14 | Ely 5 | **Penderi 2** | 147 / 14 | Penderi 2 | Sgeti 4 | Treforys 9 | Y Castell 1 | Y Castell 7 - Dwyrain | Treforys 7 | Townhill 5 | Y Castell 3 |
| 15 | Pen-y-waun 2 | **Treforys 7** | 154 / 15 | Penderi 5 | Penderi 1 | Y Cocyd 2 | Llansamlet 8 | Townhill 6 | Glandŵr 1 | Penderi 1 | Treforys 1 |
| **16** | **Townhill 2** | **Penderi 6** | 157 / 16 | Penderi 6 | Penderi 2 | Treforys 5 | Penderi 7 | Treforys 5 | Uplands 3 | Y Castell 1 | Uplands 4 |
| 17 | Tyisha 2 | **Llansamlet 8** | 179 / 17 | Treforys 7 | Treforys 7 | St. Thomas 1 | Y Cocyd 8 | Penllergaer 2 | Y Castell 3 | Penderi 4 | Y Castell 2 - De |
| **18** | **Townhill 1** | **Penderi 5** | 201 / 18 | Y Cocyd 8 | Llansamlet 8 | Llansamlet 8 | Y Castell 5 | Townhill 5 | Treforys 9 | Llansamlet 2 | Y Castell 1 |
| 19 | De-orllewin Rhyl 2 | **Treforys 9** | 205 / 19 | Llansamlet 8 | West Cross 3 | Y Cocyd 8 | Treforys 9 | Y Castell 1 | St Thomas 2 | Treforys 6 | West Cross 2 |
| 20 | Glyn 2 | **Y Cocyd 8** | 207 / 20 | Clydach 3 | Penderi 6 | Penyrheol 4 | Y Castell 3 | Penderi 5 | St Thomas 1 | Treforys 9 | Bôn-y-maen 2 |
| | | | | | | | | | | | |
| *1900* | *Radur a Morg'town 3* | ***Pontybrenin 2*** | *1851 / 139* | *West Cross 1* | *Ystumllwynarth 3* | *Uplands 5* | *Uplands 7* | *Gogledd Cilâ 2* | *Newton 1* | *Pennard 1* | *Gorseinon 2* |
| *1901* | *Marford a Hoseley 1* | ***Mayals 1*** | *1858 / 140* | *Uplands 9* | *West Cross 1* | *Sgeti 8* | *Uplands 5* | *Treforys 8* | *Llangyfelach 1* | *Llandeilo Ferwallt 1* | *Llwchwr Uchaf 2* |
| *1902* | *Bryntirion L a MM 4* | ***Sgeti 8*** | *1881 / 141* | *Llandeilo Ferwallt 1* | *Cilâ 3* | *Mayals 1* | *Gogledd Cilâ 2* | *Sgeti 6* | *Pontybrenin 2* | *Llangyfelach 1* | *West Cross 4* |
| *1903* | *St. Kingsmark 1* | ***Cilâ 3*** | *1885 / 142* | *Llangyfelach 3* | *Uplands 7* | *Gogledd Cilâ 2* | *Ystumllwynarth 3* | *West Cross 1* | *Llansamlet 2* | *Llansamlet 3* | *Clydach 3* |
| *1904* | *Pont-y-clun 2* | ***West Cross 1*** | *1893 / 143* | *Sgeti 9* | *Mayals 1* | *Newton 2* | *Mayals 2* | *West Cross 2* | *Llangyfelach 3* | *Fairwood 1* | *Sgeti 4* |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***1905*** | ***Newton 1*** | ***Llandeilo Ferwallt 1*** | *1895 / 144* | *Pontybrenin 2* | *Newton 1* | *Newton 1* | *Llandeilo Ferwallt 1* | *Sgeti 1* | *Mayals 1* | *Dynfant 3* | *Pennard 1* |
| ***1906*** | ***Mayals 2*** | ***Gogledd Cilâ 2*** | 1897 / 145 | *Sgeti 8* | *Sgeti 8* | *Pennard 2* | *West Cross 1* | *De Cilâ 1* | *Y Castell 2 - De* | *Newton 1* | *Pennard 2* |
| *1907* | *Church Village 3* | ***Pennard 2*** | 1898 / 146 | *Newton 1* | *Mayals 2* | *Llandeilo Ferwallt 1* | *Newton 2* | *Pennard 2* | *Newton 2* | *Mayals 2* | *Dynfant 2* |
| *1908* | *Marford a Hoseley 2* | ***Newton 1*** | *1905 / 147* | *Mayals 2* | *Uplands 9* | *Ystumllwynarth 3* | *Sgeti 8* | *Tre-gŵyr 2* | *Sgeti 2* | *Pennard 2* | *Fairwood 2* |
| *1909* | *De'r Wyddgrug 2* | ***Mayals 2*** | *1906 / 148* | *Penllergaer 1* | *Sgeti 9* | *Mayals 2* | *Newton 1* | *Ystumllwynarth 3* | *Mayals 2* | *Gogledd Cilâ 2* | *Fairwood 1* |

*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (cyhoeddwyd 27 Tachwedd 2019), Llywodraeth Cymru.*

Nodiadau:

a.) **ACEHI yn y safleoedd uchaf (mwyaf difreintiedig)** *(ac eithrio'r rheini yn Abertawe):* Mae Gorllewin y Rhyl a De-orllewin y Rhyl yn ardal awdurdod lleol Sir Ddinbych; mae St James a Thwyn Carno yng Nghaerffili; Mae Tylorstown, Penrhiwceiber a Phen-y-waun yn Rhondda Cynon Taf; mae Caerau ym Mhen-y-bont ar Ogwr; mae Penydarren ym Merthyr Tudfil; mae Queensway yn Wrecsam; mae Pillgwenlly yng Nghasnewydd; mae Splott, Trowbridge a Threlái yng Nghaerdydd; mae Tyisha yn Sir Gâr; mae Glyn yng Nghonwy.

b.) **ACEHI yn y safleoedd isaf** *(ac eithrio'r rheini yn Abertawe):* Mae de'r wyddgrug yn Sir y Fflint; mae Marford a Hoseley yn Wrecsam; mae Church Village a Phont-y-clun yn Rhondda Cynon Taf; mae St Kingsmark yn Sir Fynwy; mae Bryntirion Laleston a Merthyr Mawr ym Mhen-y-bont ar Ogwr; mae Radur a Morganstown yng Nghaerdydd.

---

**SYLWER**

**Malc 2019; Ffynonellau gwybodaeth bellach**

Mae rhagor o wybodaeth am Fynegai 2019 - gan gynnwys safleoedd cyffredinol a safleoedd y parthau ar gyfer ACEHI Abertawe, crynodebau ardaloedd lleol a rhestr o'r dangosyddion a ddefnyddir ym mhob parth - ar gael drwy'r dolenni canlynol:

www.abertawe.gov.uk/mallc2019 / www.abertawe.gov.uk/amddifadedd

Disgrifir y weithdrefn ystadegol a ddefnyddir i lunio'r mynegai yn fanylach yn Adroddiad Canlyniadau ac Adroddiad Technegol MALlC 2019. Gellir cyrraedd gwe-dudalennau MALlC Llywodraeth Cymru drwy'r ddolen: https://llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru